Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Aberhonddu
# Penlan
# Aberhonddu
# Powys
# LD3 9SR

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Aberhonddu

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Aberhonddu, gyda ffrwd Gymraeg iaith gyntaf fach iawn. Fe'i lleolir ar gampws Penlan yn nhref Aberhonddu. Daw'r disgyblion o dref Aberhonddu a'r ardal wledig gyfagos.

Mae 478 o ddisgyblion ar y gofrestr, sydd fymryn yn fwy na phan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf, er bod y nifer yn y chweched dosbarth wedi gostwng gryn dipyn i 53. Mae llai nag 8% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd lawer yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae llai nag 1% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae angen addysgol arbennig gan ryw 16% o ddisgyblion, sydd lawer iawn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%. Yn ogystal, mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan lai nag 1% o ddisgyblion, sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2%. Mae gan yr ysgol ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig ar y safle.

Siaredir Cymraeg gan ryw 7% o ddisgyblion fel eu hiaith gyntaf neu i safon gyfwerth, ac mae ychydig dros 8% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn Nhachwedd 2014. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth a dirprwy bennaeth, un pennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Ceir ethos cynhwysol a gofalgar yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu sy'n cefnogi datblygiad personol disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac mae llawer yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Dros gyfnod, fodd bynnag, mae gwendidau yn yr arweinyddiaeth a llywodraethu wedi cyfrannu at welliant annigonol ac anghynaledig mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, presenoldeb disgyblion a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Un nodwedd yn y rhan fwyaf o wersi yw'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion Mae'r athrawon yn gweithio'n galed ac maent wedi ymrwymo i gynorthwyo disgyblion, ond mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn cael eu herio'n ddigon da ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd. Nid yw'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion, ac er bod yr ysgol yn cynnig ychydig o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau, nid oes dull cydlynus a chydgysylltiedig o ddatblygu'r medrau hynny'n gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol wedi cronni diffyg mawr yn ei chyllideb. Er bod cynllun adfer wedi'i gytuno gyda'r awdurdod lleol, nid yw uwch arweinwyr wedi gallu pennu cyllidebau mantoledig yn y flwyddyn ac nid ydynt ychwaith yn gallu cynllunio i leihau'r diffyg dros y pum mlynedd nesaf.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys safonau disgyblion mwy abl

A2 Gwella presenoldeb

A3 Gwella profiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a'r ddarpariaeth i ddatblygu'u medrau

A4 Gwella ansawdd ac effaith arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys eu gallu i hunanwerthuso'n gadarn a chywir er mwyn cynorthwyo gwelliant effeithiol yn yr ysgol

A5 Darparu rheolaeth ariannol gadarn

A6 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol ryw 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn dangos gallu cadarn i adalw dysgu blaenorol, gan gynnwys digwyddiadau hanesyddol fel y cyfyngiadau ar fewnfudo i Unol Daleithiau America ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, a Deddf Butler a waharddodd addysgu damcaniaeth esblygiad. Mewn mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'u medrau penodol i'r pwnc ac yn gwella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o destunau fel priodweddau golau a deddfau adlewyrchiad.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando ar eu hathrawon yn astud a gyda pharch. O ran y lleiafrif nad ydynt yn gwneud, weithiau maent yn colli gwybodaeth a chyfarwyddiadau sy'n cyfrannu at eu methiant i wneud gymaint o gynnydd ag y dylent. Fel arfer, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darparu ymatebion llafar byr, heb eu datblygu'n ddigonol, i gwestiynau athrawon. Pan fydd cwestiynau'r athrawon yn eu hannog i wneud hynny, gall lleiafrif gyfleu'u safbwyntiau'n gydlynus ac, er enghraifft, esbonio'u rhesymeg ynglŷn â chymeriadau llenyddol fel Scrooge a gwraig Curley. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn ateb cwestiynau'n hyderus, ac yn gyffredinol maent yn cyfathrebu'n effeithiol â'u cyfoedion. Maent yn siarad yn glir ac yn mynegi'u hunain yn dda, gan ddefnyddio terminoleg briodol sy'n benodol i'r pwnc.

Gwneir defnydd addas o strategaethau adfer gwybodaeth gan lawer o ddisgyblion, fel sgimio a sganio, wrth ddysgu am draddodiadau Cristnogaeth a Sikhiaeth, er enghraifft. Mae mwyafrif yn defnyddio technegau sylfaenol rhesymu a dod i gasgliad yn briodol i wella'u dealltwriaeth o ystod o gymeriadau llenyddol mewn testunau, yn cynnwys 'A Christmas Carol' ac 'Of Mice and Men'. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfosod gwybodaeth yn dda pan fyddant, er enghraifft, yn penderfynu p'un ai troseddu cyfundrefnol oedd y broblem fwyaf a wynebai America yn y 1920au a sut dylai Harri'r Wythfed gael ei gofio. Gall llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth sy'n astudio Llenyddiaeth Saesneg ddadansoddi goblygiadau ac ystyr sylfaenol ymson gyntaf Edmund yng ngwaith Shakespeare 'King Lear'. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn dadansoddi effaith dewisiadau iaith yn briodol ac mae lleiafrif yn gwneud hynny gyda dawn a dirnadaeth. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod ddigonol o strategaethau darllen mewn pynciau gwahanol sy'n cyfyngu ar eu dealltwriaeth a'u cynnydd.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig wedi'u strwythuro'n dda ac yn gadarn yn dechnegol, gan gynnwys darnau naratif a darnau disgrifiadol, ac wrth drafod testunau fel effeithiau gwneud ymarfer corff ar y corff. Mae ychydig o ddisgyblion yn prawfddarllen a golygu'u gwaith yn dda, ond yn gyffredinol, nid oes digon o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am wella cywirdeb a chynnwys eu gwaith ysgrifenedig cyn iddynt ei gyflwyno i'w hathro. Mae lleiafrif yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol ac nid ydynt yn strwythuro nac yn trefnu'u gwaith ysgrifenedig yn ddigon da. Yn y ffrwd Gymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar arbrofion gyda damcaniaethau, gwerthusiadau a chasgliadau defnyddiol, er enghraifft, ar sut y mae effaith newid arwyneb gwrthrychau yn effeithio ar rymoedd ffrithiannol.

Mewn pynciau heblaw mathemateg, defnydd cyfyngedig iawn o'u medrau rhif mewn cyd-destunau buddiol a wneir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Gall llawer ohonynt lunio graffiau addas, er enghraifft, i ddangos graddfa ffotosynthesis neu ymestyniad sbring, er nad yw lleiafrif yn labelu echelinau yn addas nac yn cwblhau llinellau ffit orau yn ddigon da. Dim ond weithiau, er enghraifft, wrth ddehongli profion ffitrwydd personol, y mae disgyblion yn defnyddio graffiau yn ddigon da i lunio damcaniaethau neu ddod i gasgliadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd cyfyngedig iawn o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud hynny'n greadigol mewn celf wrth ddefnyddio rhaglen graffeg i drin delweddau er mwyn creu cyfansoddiadau i wneud datganiad ar thema rhyfel.

Yn 2018, llwyddodd mwyafrif o ddisgyblion i gyflawni cymhwyster lefel 2 mewn TGAU Cymraeg. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith yn gwneud digon o gynnydd yn ystod gwersi. Maent yn ei chael hi'n anodd adalw gwaith blaenorol, nid yw'r hyder ganddynt i ddefnyddio geirfa newydd ac maent yn cael anhawster gyda'u hynganu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio gryn dipyn, ond yn gyffredinol nid yw wedi cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Yn y tair blynedd hyd at ac yn cynnwys 2017, gwnaeth disgyblion lai o gynnydd na'r disgwyl o ran llawer o ddangosyddion, a chynnydd sylweddol yn llai mewn lleiafrif. Yn 2018, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella o ran pob dangosydd, yn dilyn blwyddyn wael iawn yn 2017, ac mae'n cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg mewn lleiafrif o ddangosyddion.

Fe wnaeth perfformiad o ran trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wella gryn dipyn yn 2018 yn dilyn dirywiad dramatig yn y flwyddyn flaenorol. Mae data dros dro yn dangos ei fod bellach ychydig uwchlaw'r disgwyl ac yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg. Er bod perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, a chyfran y disgyblion sy'n ennill 5 cymhwyster TGAU neu gymwysterau tebyg gyda graddau A*-A wedi gwella yn 2018, mae'r ddau yn is na'r disgwyl ac yn parhau i gymharu'n wael â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

Yn 2018, fe wnaeth perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4 wella o ran pob dangosydd ar ôl perfformiad gwan iawn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn is o hyd na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg o ran y rhan fwyaf o ddangosyddion, ac mae perfformiad merched islaw'r cyfartaledd ar gyfer eu cymheiriaid mewn llawer o ddangosyddion. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad bechgyn a merched yn eu tro wedi bod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn a merched mewn ysgolion tebyg o ran llawer o ddangosyddion.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron yr holl ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn naill ai yn yr ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Yn y chweched dosbarth, fe wnaeth cyfran y disgyblion yn cyflawni tair gradd A* neu A wella yn 2018 ac mae'n agos iawn at y cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, ar ôl

bod ymhell islaw ym mhob un o'r ddwy flynedd flaenorol. Fe wnaeth sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog disgyblion a'r gyfran sy'n ennill tair gradd A*-C wella hefyd yn 2018. Erbyn hyn, mae perfformiad o ran y dangosydd olaf yn well na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, er bod y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog yn parhau'n is.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer o'r farn fod yr ysgolion yn delio'n dda ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlio ac maent yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gryf o sut i gadw'n iach a diogel.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn trin eraill â pharch a chwrteisi mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched yn fodelau rôl da, er enghraifft, fel mentoriaid cyfoedion a thrwy gynorthwyo disgyblion iau i ddarllen. Y tu allan i'r chweched dosbarth, serch hynny, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n arddangos medrau arwain.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol mewn grwpiau bach, er enghraifft, wrth drafod troseddu cyfundrefnol a llygredd y llywodraeth yn Unol Daleithiau America yng nghyfnod y Gwahardd. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu'u medrau dysgu annibynnol yn dda, er enghraifft, wrth gael dealltwriaeth o theorem Pythagoras. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu gormod ar yr athro ac nid yw'r gwydnwch angenrheidiol ganddynt i weithio'n dda yn annibynnol.

Yn y gwersi hynny lle mae'r addysgu'n effeithiol, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym, yn canolbwyntio ar y dasg ac yn awyddus i ddysgu. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw nifer o ddisgyblion yn dangos digon o barch nac ystyriaeth i'w gilydd ac maent yn aml yn llithro'n rhy hawdd i siarad ac ymddwyn i ffwrdd o'r dasg. Mae hyn yn tarfu ar eu dysgu nhw a dysgu disgyblion eraill o'u hamgylch.

O bryd i'w gilydd, mae disgyblion yn dangos brwdfrydedd go iawn am eu dysgu pan fyddant, er enghraifft, yn dylunio ac yn gwneud siapiau 2D a 3D, yn trafod eu hempathi, eu cydymdeimlad, neu'u hadwaith tuag at gymeriadau yn 'A Christmas Carol', ac yn datblygu'u medrau pêl-rwyd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ychydig o ddisgyblion sy'n dangos y brwdfrydedd a'r chwilfrydedd hwn yn eu dysgu, neu'n gofyn cwestiynau er mwyn ehangu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae gan leiafrif o ddisgyblion o bob gallu waith ar goll neu waith heb ei orffen yn eu llyfrau.

Mae presenoldeb wedi dirywio yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a bellach mae ymhell islaw'r disgwyl. Yn ogystal, mae absenoldeb parhaus wedi cynyddu, ac mae'n uchel erbyn hyn.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion yn nodwedd o'r rhan fwyaf o wersi. Mae gwybodaeth bynciol gadarn gan lawer o athrawon, ac maent yn strwythuro gwersi yn addas. Mae'r athrawon hyn yn sefydlu arferion defnyddiol yn yr ystafell ddosbarth ac yn rheoli ymddygiad yn effeithiol.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn addas i gynllunio gweithgareddau priodol a darparu adnoddau defnyddiol. Maent yn darparu esboniadau ac amcanion clir, yn cynnig cymorth buddiol, gan gynnwys adborth llafar, i ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn datblygu medrau penodol i bwnc y disgyblion yn dda ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ganlyniad i hynny.

Mewn mwyafrif o wersi, ac weithiau'r rheini â chryfderau sylweddol eraill, nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel bob amser. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cyflawni'u potensial, ac mae hyn yn arbennig o wir i ddisgyblion mwy abl.

Mewn lleiafrif o wersi, mae cyflymder y dysgu'n rhy araf ac nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu drostynt eu hunain. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu. Maent yn cymryd gormod o amser i esbonio tasgau ac yn gwneud gormod dros y disgyblion. Yn ogystal, mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar dasgau lefel isel fel copïo neu gwblhau taflenni gwaith syml. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud digon o gynnydd.

Defnyddir holi yn fedrus gan ychydig o athrawon i wirio dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn annog disgyblion i ehangu ar eu hatebion a'u cyfiawnhau, er mwyn dyfnhau'u dysgu. Mae'r mwyafrif o athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol er mwyn mesur faint maent yn ei gofio, ond yn gyffredinol, nid yw cwestiynau athrawon yn ddigon treiddgar na heriol. O ganlyniad, nid yw athrawon yn pennu graddau cynnydd neu ddealltwriaeth disgyblion yn ddigon da, ac yn aml maent yn symud ymlaen yn rhy gyflym neu'n rhy araf. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn gofyn gormod o gwestiynau syml neu gaeedig, ac nid ydynt yn rhoi digon o amser i ddisgyblion ymateb i'r ychydig o gwestiynau mwy heriol a ofynnir ganddynt.

Ar draws yr ysgol, mae ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion yn amrywio gormod. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn darparu adborth penodol a defnyddiol sy'n galluogi disgyblion i ddysgu o'u camgymeriadau a gwneud cynnydd addas. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o sylwadau ysgrifenedig yn ddigon manwl neu maent yn ymwneud ag ymdrech yn hytrach nag ansawdd y gwaith. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth ddigon cadarn gan ddisgyblion o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Hefyd, mae disgwyliadau athrawon o ymatebion disgyblion i adborth yn amrywio gormod. Mewn ychydig o achosion, disgwylir i ddisgyblion dreulio amser ar gamau penodol a nodwyd gan yr athro ac maent yn gwella eu gwaith o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o achosion, mae ymatebion disgyblion naill ai'n rhy arwynebol neu nid ydynt yn ymateb o gwbl.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r coleg lleol ac ysgolion eraill i ddarparu ystod eang o ddewisiadau yn y chweched dosbarth, gan gynnwys ychydig o gyrsiau galwedigaethol. Mae'n darparu cwricwlwm priodol yng nghyfnod allweddol 3, er nad yw trefniadau i gynllunio'r cwricwlwm ochr yn ochr ag ysgolion cynradd partner wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol wedi gwneud addasiadau priodol i amserlenni ychydig o ddisgyblion llai abl a'r rheini sy'n cael anawsterau, er mwyn cefnogi'u dysgu a'u lles. Fodd bynnag, nid yw cwricwlwm cyfnod allweddol 4 yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn ddigon da. Ystod gul o ddewisiadau sydd ar

gael i ddisgyblion, ac mae'r cyfuniad o bynciau sydd ar gael ym mhob colofn dewisiadau yn gyfyngol. Mae hwn yn ddiffyg sylweddol.

Darperir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr gan yr ysgol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn briodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon, cerddoriaeth a drama yn arbennig o gryf, ac yn cynnwys cyfleoedd fel cynyrchiadau cerddorol, cerddorfa'r ysgol ac amrywiaeth o dimau chwaraeon.

At ei gilydd, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth i gynorthwyo a herio disgyblion mwy abl, yn enwedig mewn gwersi, ac nid yw'n eu galluogi i wneud cynnydd digonol. Ychydig iawn o gyfleoedd allgyrsiol buddiol y mae'r ysgol yn eu cynnig i gynorthwyo disgyblion mwy abl yn y chweched dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen gymorth ddefnyddiol i ddisgyblion sy'n bwriadu gwneud cais i fynd i brifysgolion Rhydychen neu Gaergrawnt.

Mae'r ysgol yn cynnig ychydig o gyfleoedd defnyddiol i wella medrau disgyblion. Mae 'Diwrnodau Medrau / Skills Days', er enghraifft, wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Fodd bynnag, ceir diffyg arweinyddiaeth strategol a throsolwg o'r agwedd hon ar waith yr ysgol. Nid oes dull cydlynus a chydgysylltiedig gan yr ysgol i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau, ond nid ydynt yn eu cynorthwyo'n ddigon da i ddatblygu'r medrau hyn. Er enghraifft, ar draws ystod o bynciau, caiff disgyblion gyfleoedd i ysgrifennu llythyrau ond nid ydynt yn cael arweiniad digon da i gymhwyso confensiynau ysgrifennu llythyrau nac i gymryd cyfrifoldeb am wella eu cywirdeb technegol. Er y ceir ymyrraeth addas i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd gwan, ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth debyg i'r rhai y mae angen cymorth arnynt gyda'u medrau rhifedd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn gyfyngedig iawn.

Darperir cyfleoedd addas gan yr ysgol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru, fel Eisteddfod yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ymarfer eu medrau iaith Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cael darpariaeth briodol ar gyfer Cymraeg.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

Ceir ethos cynhwysol a gofalgar yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda darparwyr allanol i gynnig rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n cefnogi datblygiad personol disgyblion yn dda. Mae'r rhaglen hon yn cynnig ystod amrywiol o destunau i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol, fel pan fyddant yn ystyried peryglon chwistrelliadau botox a lliw haul, a sut i ddod yn 'gyfeillgar i ddementia'. Caiff disgyblion eu hannog i wneud dewisiadau bwyta iach, ac maent yn cael gwybodaeth glir am fyw'n iach a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel. Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol, fel bocsio, sboncen, a 'rownderi rygbi'.

Mae agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu datblygu'n dda gan yr ysgol. Mae disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith

ychwanegol yn elwa o gael cymorth gan athro arbenigol, ynghyd â chynorthwywyr addysgu, a gwnânt gynnydd cryf o ganlyniad i hynny. Yn ogystal, mae'r cysylltiad hen sefydledig gyda'r gymuned Gyrcas leol yn galluogi disgyblion i ddeall a gwerthfawrogi traddodiadau a dathliadau'r teuluoedd hyn. Mae plant y lluoedd arfog a theuluoedd milwrol yn elwa o waith defnyddiol swyddog cymorth teuluoedd y lluoedd, sy'n galluogi pontio hwylus pan fydd plant yn ymuno â'r ysgol ac yn symud ymlaen o'r ysgol, yn ogystal â chefnogi lles y disgyblion hyn yn gyffredinol.

Mae'r 'ganolfan les' yn darparu cymorth buddiol ac amserol i'r disgyblion hynny sy'n wynebu rhwystrau rhag eu dysgu. Mae'r ganolfan yn hwyluso mynediad at ystod eang o ddarpariaeth arbenigol i fodloni anghenion disgyblion unigol wrth iddynt godi. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn cyfranogi mewn rhaglenni penodol i gynorthwyo'u datblygiad ehangach. Mae hyn yn cynnwys disgyblion targedig yn ymuno â 'phrosiect Phoenix' Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel rhedeg y bibell a thechnegau chwilio ac achub er mwyn datblygu'u priodoleddau personol, medrau gweithio mewn tîm a'u gallu i ddelio â thasgau ymestynnol.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn addas, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy gysylltiadau cryf ag ysgolion cynradd lleol. Mae ystod gynhwysfawr o ymyriadau buddiol ar waith i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da, ac nid yw'r ysgol ychwaith yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn ddigon trwyadl ar gyfer y disgyblion hyn. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd digonol. Yn ogystal, nid yw darpariaeth yr ysgol i gyfoethogi ac ymestyn profiadau dysgu disgyblion mwy abl wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ychwaith. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi elwa o gyfranogi mewn prosiectau gyda phobl ifanc eraill yn yr ardal, er enghraifft, i ystyried dulliau o reoli ynni'n gynaliadwy yn Hafren Gwy. At ei gilydd, fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau arwain.

Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion fynegi'u barnau am waith yr ysgol, er bod llawer yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnynt. Yn ogystal, nid yw disgyblion yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ddigon da wrth wneud eu dewisiadau opsiynau ar gyfer cyfnod allweddol 4.

Nid yw'r ysgol yn mynd ati'n ddigon da i arfarnu'r systemau sydd ar waith i fonitro a gwella perfformiad a phresenoldeb disgyblion. Mae hyn wedi effeithio'n negyddol ar berfformiad grwpiau o ddisgyblion a phresenoldeb disgyblion.

Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid oes unrhyw feysydd pryder sylweddol. Fodd bynnag, codwyd mater iechyd a diogelwch gyda'r ysgol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro'r uwch dîm arwain ac wedi adolygu'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, mae dyrannu cyfrifoldebau'n anghyfartal, ymrwymiadau addysgu unigol a dyletswyddau gweithredol yn cyfyngu ar allu'r uwch dîm i flaenoriaethu materion strategol. Mae hyn wedi cyfrannu at welliant annigonol ac anghynaledig mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr

addysgu, presenoldeb a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.  Yn ogystal, nid yw'r uwch dîm arwain wedi sicrhau digon o gynnydd o ran yr ysgol yn cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a'r Gymraeg.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol.  Nod briodol y weledigaeth yw 'paratoi myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol trwy ddatblygu gwerthoedd cadarn, a manteisio i'r eithaf ar botensial personol mewn amgylchedd dysgu diogel a gofalgar'.  Rhennir y weledigaeth yn briodol gyda disgyblion, staff a rhieni.

Adolygwyd y strwythur arweinwyr canol yn briodol yn ddiweddar i ymateb i anawsterau ariannol yr ysgol.  Fodd bynnag, mae'r ailstrwythuro hwn yn dal i fynd rhagddo ac ni fydd yn cael ei weithredu hyd nes 2019.  Mae dealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau pwnc gan yr arweinwyr canol presennol.  Fodd bynnag, nid yw eu dealltwriaeth o sut maent yn cyfrannu at welliannau ysgol gyfan mor gadarn, yn enwedig mewn perthynas â gwella ansawdd yr addysgu.  Mae uwch arweinwyr wedi egluro'r trefniadau ar gyfer dwyn arweinwyr canol i gyfrif.  Mae'r rhain yn cynnwys calendr o gyfarfodydd priodol a threfniadau rheoli llinell clir.  Er bod agenda gyffredin i'r cyfarfodydd hyn, maent yn canolbwyntio gormod ar brosesau a gweithdrefnau a dim digon ar effaith y camau hyn ar ansawdd yr addysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae dealltwriaeth dda gan lywodraethwyr o faterion staffio a materion ariannol yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw eu dealltwriaeth o ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac o ddeilliannau disgyblion, mor gadarn.  Er enghraifft, nid yw eu dealltwriaeth o'r setiau data craidd yn ddigon manwl i'w galluogi i herio'r ysgol ar ei chynnydd mewn meysydd allweddol.  Mae llywodraethwyr yn gwella'u dealltwriaeth o'r cryfderau a'r gwendidau mewn adrannau unigol drwy eu gweithgareddau llywodraethwyr cyswllt.  Er bod llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol, nid ydynt wedi cynnig her ddigon cadarn i'r uwch dîm arwain mewn meysydd allweddol, gan gynnwys codi safonau a delio â'r diffyg sylweddol yn y gyllideb.

Mae ystod ddefnyddiol o systemau a phrosesau gan yr ysgol i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu.  Mae'r rhain, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd o arolygon disgyblion, staff a rhieni, yn rhoi trosolwg sylfaenol i'r ysgol o'i chryfderau a'i gwendidau.  Mae llawer o athrawon yn ymgymryd â gwaith craffu ac arsylwi gwersi.  Drwy wneud hyn, maent yn cael cipolwg buddiol i'r dulliau addysgu a ddefnyddir gan eu cymheiriaid, a dealltwriaeth werthfawr o waith disgyblion ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, nid yw deilliannau arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith yn nodi'r nodweddion da a diffygion yn yr addysgu a'r dysgu yn ddigon clir.  Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon da i'r effaith ar ddysgu wrth werthuso ansawdd addysgu ac asesu mewn gwersi, profiadau mewn amser tiwtorial neu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae golwg or-hael gan yr ysgol o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth.  Nid yw meysydd i'w datblygu sy'n deillio o hunanarfarnu yn cael eu nodi'n ddigon penodol na chywir i ffurfio sail ar gyfer cynllunio gwelliant ysgol yn effeithiol, ar lefel adrannol a lefel ysgol gyfan.  Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cymryd camau i adolygu a mireinio prosesau sicrhau ansawdd, er bod cynnydd o ran gwella meysydd pwysig o waith yr ysgol wedi bod yn rhy araf.

Mae trefniadau priodol gan yr ysgol i reoli perfformiad staff. Yn gyffredinol, mae amcanion yn briodol ac mae camau gweithredu yn cynnwys cyfleoedd buddiol ar gyfer dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar yr effaith fwriadedig ar ddeilliannau disgyblion drwy feini prawf llwyddo penodol a mesuradwy.

Cynigir cyfleoedd addas i athrawon gyfranogi mewn dysgu proffesiynol. Mae hyfforddiant diweddar i'r ysgol gyfan wedi canolbwyntio ar feysydd priodol, fel datblygu medrau a dealltwriaeth athrawon o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Fodd bynnag, nid oes strategaeth gyffredinol ar gyfer dysgu proffesiynol sydd wedi'i chysylltu â'r meysydd pwysicaf i'w datblygu yn yr ysgol. Nid oes digon o gyfleoedd i arweinwyr ar bob lefel ddatblygu'u medrau arwain.

Mae'r ysgol wedi cronni diffyg mawr yn ei chyllideb. Er bod cynllun adfer wedi'i gytuno gyda'r awdurdod lleol, nid yw uwch arweinwyr wedi gallu pennu cyllidebau mantoledig yn y flwyddyn ac nid ydynt ychwaith yn gallu cynllunio i leihau'r diffyg dros y pum mlynedd nesaf. Mae nifer briodol o athrawon cymwys yn yr ysgol i staffio'r cwricwlwm llai, cyfredol, er bod nifer sylweddol o athrawon yn addysgu dau neu fwy o bynciau. Nid yw trefniadau i gynorthwyo athrawon sy'n addysgu y tu allan i'w meysydd arbenigedd yn ddigon cadarn, ac yn aml mae hyn yn effeithio'n negyddol ar ddysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, yn briodol i fodloni anghenion ystod o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys clybiau brecwast a nifer o ymyriadau priodol i helpu disgyblion wella'u medrau llythrennedd. Mae'r gweithgareddau hyn wedi bod yn fuddiol o ran gwella lles disgyblion a chynorthwyo'u cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/01/2019